

Taliadau am wasanaethau ofal yn eich cartref ac yn y gymuned

Mawrth 2020

Taliadau am wasanaethau ofal yn eich cartref ac yn y gymuned

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Am ba wasanaethau y codir tâl?	2
Gwasanaethau sy'n daladwy;	2
Gwasanaethau nad ydynt yn daladwy;	2
Sut y caiff y swm y mae'n rhaid i berson ei dalu ei weithio allan	3
Defnyddir y Polisi Taliadau i benderfynu p'un a fydd rhywun yn talu	3
Beth os nad oes arna'i eisiau, neu os na fyddaf yn rhoi gwybodaeth ichi am fy nghyllid?	4
Incwm wythnosol	4
Cyfalaf a Therfyn Cyfalaf ar gyfer Gofal Cartref	4
Incwm a phethau a gaiff eu diystyru	5
Incwm a fydd yn cael ei ddiystyru o'ch asesiad	5
Beth i'w wneud os bydd eich amgylchiadau'n newid neu os nad ydych yn fodlon ar eich asesiad.	6
Cais am Adolygiad	6
Hawlildiad	7
Apêl	7
Cwynion	8
Hawl i benodi eiriolwr	8
Sut y gellir talu'r taliadau	8
Hawlio budd-daliadau i'ch helpu i dalu taliadau	9
Beth sy'n digwydd i'r wybodaeth ariannol a phersonol a roddir?	10
Cysylltiadau defnyddiol	10

Taliadau am wasanaethau ofal yn eich cartref ac yn y gymuned

Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn darparu gwybodaeth ynghylch taliadau am wasanaethau y mae pobl yn eu cael yn eu cartref eu hunain ac yn y gymuned a'r ffordd y caiff y rhain eu cyfrifo.

Am ba wasanaethau y codir tâl?

Gwasanaethau sy'n daladwy;

- Gofal preswyl
- Gofal a chymorth cartref
- Gwasanaethau dydd
- Cymorth yn y nos
- Cyfleoedd gwaith
- Cynlluniau byw â chymorth
- Rhannu bywydau
- Taliadau uniongyrchol / Cymorth dan gyfarwyddyd y dinesydd / Cyllidebau cymorth

Gallwch hefyd dalu taliadau cyfradd safonol ar gyfer pethau fel;

- Gwasanaethau Teleofal. Bydd cost hyn yn cael ei ystyried yn draul o fewn yr asesiad ariannol.
- Hefyd, codir tâl ar wahân ar gyfer prydau a ddarperir mewn canolfannau dydd. Mae'r rhain yn gostau byw beunyddiol ac nid yw'r asesiad ariannol yn effeithio arnynt.

Codir tâl ar wahân arnoch am y taliadau cyfradd safonol hyn.

Gwasanaethau nad ydynt yn daladwy;

- Cludiant i wasanaethau dydd
- Gwasanaethau gofalwr
- Gwasanaethau ailalluogi am amser cyfyngedig

Nid yw taliadau'n berthnasol i;

- Berson 18 oed neu'n iau
- Oedolyn sy'n destun i Adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983
- Oedolion sydd wedi cael diagnosis o Creutzfeldt Jacob (CJD)

Taliadau am wasanaethau ofal yn eich cartref ac yn y gymuned

Sut y caiff y swm y mae'n rhaid i berson ei dalu ei weithio allan

Os yw'r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol yn trefnu gwasanaethau gofal cartref ar eich cyfer bydd y taliad ar gyfer y rhain yn seiliedig ar eich incwm wythnosol, faint o gynilion a chyfalaf sydd gennych a chyfanswm cost eich pecyn gofal bob wythnos.

Er mwyn gwneud yn siŵr bod y taliadau a godwn ar gyfer gofal cartref yn deg, mae Polisi Taliadau Sir Ddinbych wedi'i seilio ar ganllawiau a rheoliadau gan Lywodraeth Cymru sy'n pennu uchafswm tâl wythnosol.

Defnyddir y Polisi Taliadau i benderfynu p'un a fydd rhywun yn talu

Gallai hyn fod;

1. Dim byd tuag at gost eu gofal
2. Y taliad llawn ar gyfer eu gofal. Caiff hyn ei weithio allan yn ôl faint o ofal y maent yn ei gael hyd at uchafswm o £100 yr wythnos
3. Rhan o gost eu gofal; bydd yr union swm yn amodol ar faint o arian sydd ganddynt bob wythnos ar ôl talu treuliau penodol ac ar faint o ofal a gânt ond ni fydd hyn yn fwy na £100 yr wythnos.

Caiff y taliadau eu hadolygu bob blwyddyn. Gweler ein taflen ddiweddaraf o'r enw 'Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Ffioedd a Thaliadau'.

Bydd swyddog asesu ariannol o Gyngor Sir Ddinbych yn gofyn ichi ddarparu gwahanol eitemau o wybodaeth ariannol i helpu iddynt weithio allan faint y gallwch fforddio ei dalu tuag at eich gwasanaethau.

Er enghraifft, byddwn yn gofyn ichi am eich cyfriflenni banc a llythyrau budd-daliadau. Bydd angen y wybodaeth hon arnom cyn gynted â phosibl. Os ydych yn meddwl y bydd angen mwy na 3 wythnos arnoch i ddarparu'r rhain, rhowch wybod inni. Mae ein manylion cyswllt ar gael ar ddiwedd y ddogfen hon.

Os hoffech help i lenwi'r ffurflen, cysylltwch â ni ac fe drefnwn i rywun eich helpu neu i ymweld â chi os bydd raid. Os ydy rhywun yn llenwi'r ffurflen hon ar eich rhan, bydd arnom angen eich caniatâd inni siarad gyda nhw am hyn.

Taliadau am wasanaethau ofal yn eich cartref ac yn y gymuned

Beth os nad oes arna'i eisiau, neu os na fyddaf yn rhoi gwybodaeth ichi am fy nghyllid?

Os byddwch yn dewis peidio â dweud wrthym am eich amgylchiadau ariannol neu os na fyddwch yn darparu'r wybodaeth sydd arnom ei hangen, byddwn yn gofyn ichi dalu cost lawn eich gofal o'r diwrnod y bydd eich gofal yn dechrau. Bydd hyn yn £100 yr wythnos ar y mwyaf.

Incwm wythnosol

Mae eich cyfanswm incwm wythnosol yn cynnwys:

- pob budd-dal nawdd cymdeithasol a phensiwn
- pob pensiwn galwedigaethol
- taliadau a gewch gan ffynonellau eraill fel taliadau gan bobl eraill
- nid oes gennym ddiddordeb mewn arian rydych yn ei ennill yn gyflog.

Cyfalaf a Therfyn Cyfalaf ar gyfer Gofal Cartref

Mae cyfalaf yn cynnwys cynilion, buddsoddiadau, arian parod a gedwir gartref, eiddo a thir (ar wahân i gartref y person). Nid ydym yn cyfrif gwerth y cartref rydych yn byw ynddo.

Mae'r tîm asesiad ariannol yn cyfrifo eich cyfalaf drwy ddefnyddio canllawiau'r llywodraeth. Dylech gysylltu â'r tîm i drafod eich cyfalaf os nad yw'n cael ei gadw mewn banc, cymdeithas adeiladu, neu gyfrif swyddfa'r post, gan fod rhai mathau o asedau'n cael eu trin fel incwm ac nid fel cyfalaf.

Llai na £24,000

Os yw cyfalaf person yn llai na hyn, caiff ei anwybyddu.

Mwy na £24,000

Bydd tâl yn cael ei godi ar berson sydd â chyfalaf sy'n fwy na'r swm hwn am wasanaethau, hyd at uchafswm o £100 yr wythnos.

Os ydych yn cael gwasanaethau ar unrhyw adeg a bod eich cyfalaf/cynilion yn disgyn o dan £24,000, cysylltwch â'ch swyddog asesiad ariannol. Yna, gallant drefnu i asesiad ariannol gael ei gwblhau. Mae ein manylion cyswllt ar gael yn adran olaf y ddogfen hon.

Taliadau am wasanaethau ofal yn eich cartref ac yn y gymuned

Ni fyddwn yn rhoi cymorth ariannol i unrhyw un rydym yn credu eu bod wedi gwaredu ar gyfalaf/cynilion ar bwrpas fel eu bod yn disgyn o dan £24,000. Bydd gofyn iddynt dalu'r gost lawn am eu gwasanaethau hyd at uchafswm o £100 yr wythnos.

Y rheolau am gyfalaf ac incwm i gyplau.

Os ydych yn rhan o gwpwl, dim ond cyfalaf sy'n perthyn i chi y byddwn yn ei ystyried. Os ydy'ch cyfalaf yn cael ei gadw ar y cyd â rhywun arall, fel arfer, dim ond 50% o hyn y byddwn yn ei ystyried. Byddwn yn cymryd 100% o'r incwm sydd yn eich enw chi i ystyriaeth oni bai eich bod yn cael budd-dal i'w ddefnyddio ar y cyd, fel Cymhorthdal Incwm neu Gredyd Pensiwn lle byddwn yn ystyried 50% wrth eich asesu chi.

Byddwn yn gofyn ichi p'un a ydych yn fodlon i'ch cyllid gael ei asesu fel cwpl, am y gall hyn fod o fudd ichi, os byddwch yn cytuno i gael eich asesu fel cwpl, gwnawn gyfrifiad 'gwell eich byd'. Ystyr hyn yw y byddwn yn asesu eich cyllid yn unigol, ac yna fel cwpl, ac yn defnyddio'r cyfrifiad sy'n gweithio orau i chi.

Incwm a phethau a gaiff eu diystyru

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu canllaw ar y ffordd y dylai awdurdodau lleol fynd i'r afael ag asesiadau ariannol ar gyfer gofal a chymorth cartref. Mae hwn yn:

- gwneud yn siŵr na fydd incwm net person yn cael ei leihau ar ôl codi lefelau llai na sylfaenol o Fudd-daliadau Lles ynghyd â 35% o'r gyfradd hon, a
- gwneud yn siŵr bod 10% pellach o incwm bob person sy'n cael asesiad ariannol yn cael ei ddiystyru fel cyfraniad tuag at eu gwariant cysylltiedig ag anabledd.
- gwneud yn siŵr nad chodir mwy na £100 yr wythnos ar neb.

Incwm a fydd yn cael ei ddiystyru o'ch asesiad

Unwaith y byddwn wedi cyfrifo cyfanswm eich incwm wythnosol, caiff rhai symiau eu diystyru. Y rhain yw:

- eich eillion chi neu enillion eich partner a chredyd treth gwaith cysylltiedig
- unrhyw lwfans byw i'r anabl (DLA) – symudedd, neu Daliad Annibyniaeth Personol (PIP) - symudedd
- budd-dal tai (ad-daliad rhent) neu ostyngiad treth gyngor

Taliadau am wasanaethau ofal yn eich cartref ac yn y gymuned

- unrhyw forgais, rhent neu dreth gyngor
- caiff pensiwn anabled rhyfel ei ddiystyru'n llwyr
- £10 o unrhyw bensiwn gweddwon rhyfel
- unrhyw daliadau ar gyfer costau gofal preifat, ar yr amod bod y gweithiwr cymdeithasol yn cytuno bod y rhain yn angenrheidiol
- elfen credyd cynilion eich credyd pensiwn y wladwriaeth hyd at uchafswm a bennir gan Lywodraeth Cymru. Gwneir hyn i sicrhau bod gan berson ddigon o arian i fyw arno wedi i'r asesiad gael ei gwblhau.

Beth i'w wneud os bydd eich amgylchiadau'n newid neu os nad ydych yn fodlon ar eich asesiad.

Bydd yna enghreifftiau lle bydd angen cynnal adolygiad neu ailasesiad ariannol, megis;

- Lle mae eich incwm neu'ch cyfalaf wedi newid,
- Bu newid yn eich amgylchiadau neu
- Bu newid i'ch cynllun gofal a chymorth.

Fe ddylech chi neu eich cynrychiolydd gysylltu â'r Swyddog Asesiad Ariannol a fydd yn adolygu'r asesiad ariannol yn ôl yr angen. Mae'r manylion cyswllt ar gefn y ddogfen hon. Cewch wybod am y canlyniad mewn ysgrifen. Ar ôl yr adolygiad / ailasesiad ariannol, mae'n bosibl na fydd unrhyw newid i'r swm wythnosol rydym wedi asesu bod rhaid ichi gyfrannu bob wythnos.

Cais am Adolygiad

Os nad ydych yn cytuno â'r asesiad ariannol, y taliadau a godwyd neu'r cyfraniad rydym wedi gofyn ichi ei wneud, mae yna ffyrdd i chi apelio. Gallwch wneud y cais am adolygiad unrhyw bryd ar ôl inni ysgrifennu atoch i'ch hysbysu. Rhaid i chi ddweud wrth y Cyngor pam eich bod yn gofyn iddo edrych ar y penderfyniad eto. Gallwch wneud hyn naill ai drwy siarad gyda neu ysgrifennu at Swyddog Asesiad Ariannol.

Gallwch ofyn i rywun arall ofyn i ni edrych eto ar y penderfyniad, mae'n rhaid eu bod yn gweithredu ar eich rhan a bod ganddynt eich caniatâd chi i wneud hynny.

Taliadau am wasanaethau ofal yn eich cartref ac yn y gymuned

Os ydych wedi rhoi arian neu eiddo i rywun arall er mwyn lleihau eich tâl neu gyfraniad, gall y 'trosglwyddai atebol', h.y. y person y mae'r arian neu eiddo wedi'i drosglwyddo iddynt, ofyn am adolygiad o'r penderfyniad i godi tâl arnynt, yn yr un ffordd â chi.

Fe ddylech chi neu'r person sy'n gweithredu ar eich rhan gysylltu â'r Swyddog Asesiad Ariannol a fydd yn:

- Gwirio bod y wybodaeth ariannol a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiad yn gywir
- Edrych ar unrhyw wybodaeth newydd a ddarperir gennych chi neu eich cynrychiolydd
- Gwirio bod y cyfraniad asesedig wedi'i gyfrifo'n gywir
- Penderfynu p'un a oedd y penderfyniad yn deg a chywir.

Cewch wybod am y canlyniad mewn ysgrifen.

Hawlildiad

Os ydych yn teimlo nad ydych yn gallu fforddio'r taliad neu gyfraniad y gofynnwn i chi ei wneud, gallwch chi neu gynrychiolydd ofyn i'r taliad neu gyfraniad gael ei hawlildio. Caiff ceisiadau i hawlildio taliadau eu hystyried gan Banel. Gall y Panel argymhell bod eich taliad neu gyfraniad yn cael eu hawlildio mewn achosion lle bydd amgylchiadau eithriadol neu galedi ariannol. Lle rhoddir hawlildiad, caiff ei adolygu bob blwyddyn i weld a yw eich amgylchiadau'n dal i'w gyfiawnhau.

Gallwch ddewis peidio â thalu eich taliad neu gyfraniad tra bo'r cais am hawlildiad yn cael ei ystyried, ond rhaid ichi ddweud wrthym eich bod yn mynd i wneud hyn. Fodd bynnag, rhaid i chi fod yn ymwybodol, os byddwch yn dewis peidio â thalu a bod yr hawlildiad ddim yn cael ei roi, bydd y Cyngor yn gofyn ichi dalu'r ôl-ddyledion.

Apêl

Gallwch apelio yn erbyn y penderfyniad hawlildiad. Caiff apeliadau eu hystyried gan y Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol. Os ydych y dymuno apelio, rhaid ichi gynnwys y rheswm dros eich anfodlonrwydd a chynnwys gwybodaeth ychwanegol newydd i'r wybodaeth a ystyriwyd cynt er mwyn i'r Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol adolygu'r cais. Os nad oes yna wybodaeth newydd i'w hystyried, nid oes raid i'r Awdurdod Lleol dderbyn yr apêl.

Taliadau am wasanaethau ofal yn eich cartref ac yn y gymuned

Cwynion

Os byddwch chi neu eich cynrychiolydd yn teimlo na chafodd y broses gywir ei dilyn neu'n teimlo na chafodd gwybodaeth berthnasol ei hystyried, byddwch yn gallu gwneud cwyn ffurfiol i'r Cyngor a fydd yn cael ei ystyried drwy ei weithdrefn cwynion ffurfiol.

Gallwch chi neu eich cynrychiolydd wneud cwyn os byddwch yn teimlo nad yw'r Cyngor wedi ystyried ei benderfyniad yn ddigonol wrth ymgymryd â'r adolygiad, er enghraifft:

- Peidio â dilyn y Polisi Taliadau ar gyfer Gwasanaethau Gofal a Chymorth
- Peidio â dilyn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Peidio ag ystyried y wybodaeth a ddarparwyd yn iawn.

Ym mhob achos, cewch wybod am y canlyniad mewn ysgrifen.

Hawl i benodi eiriolwr

Mae gennych hawl i wahodd rhywun o'ch dewis i'ch cefnogi ac i gymryd rhan yn llawn yn y broses asesiad ariannol a thaliadau gan eich galluogi i leisio'ch barn, dymuniadau a theimladau. Gall ffrindiau, teulu neu rwydwaith cymorth ehangach ddarparu'r cymorth hwn. Fel arall, gallwch ddefnyddio eiriolwr. Darperir manylion cyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon.

Sut y gellir talu'r taliadau

Caiff biliau sy'n rhestru'r gwasanaethau a ddarparwyd, eu costau a'r cyfanswm sy'n daladwy eu hanfon bob mis. Bydd y rhain yn fis ar ei hôl hi bob tro. Er enghraifft, bydd yr anfoneb am wasanaethau a gawsoch ym mis Medi yn cael ei hanfon atoch ym mis Hydref.

Mae yna amrywiaeth o ddulliau y gallwch eu defnyddio i dalu, a chaiff y rhain eu hesbonio ar gefn eich bil, ac maent yn cynnwys debyd uniongyrchol, dros y ffôn, drwy'r post neu mewn Siopau Un Alwad.

Debyd Uniongyrchol yw'r ffordd y mae'n well gennym ichi ei defnyddio.

Mae Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Sir Ddinbych yn disgwyl i anfonebau gael eu talu'n llawn yn dilyn asesiad ariannol neu ar ôl i gleient ddewis talu hyd at uchafswm o £100 yr wythnos.

Taliadau am wasanaethau ofal yn eich cartref ac yn y gymuned

Os bydd unrhyw un yn cael trafferth talu, fe ddylent gysylltu â'r Swyddog Asesiad Ariannol, neu siarad gyda'u cydlynnydd gofal neu weithiwr cymorth.

Os na fydd anfoneb yn cael ei thalu, caiff ei hadolygu ac anfonir nodyn atgoffa at y cleient. Os bydd cleient yn parhau i beidio â thalu anfonebau, bydd yr awdurdod lleol yn cymryd camau i adfer y ddyled.

Mae'n bosibl y bydd y darparwr gwasanaeth yn codi tâl yn uniongyrchol am daliadau cyfradd unffurf fel teleofal a gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â thai. Bydd y taliadau hyn yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn yr asesiad ariannol ar gyfer gwasanaethau eraill, ond nid ydynt yn ddarostyngedig i'r tâl wythnosol uchaf am ofal a chymorth fel y pennir gan Lywodraeth Cymru.

Mae cyllidebau cymorth, taliadau uniongyrchol a gwasanaethau eraill sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn ffordd fwy hyblyg o ddarparu gwasanaethau dibreswyl, y gellir eu hamrywio i weddu i anghenion yr unigolyn. Bydd codi tâl am y gwasanaethau hyn yn gyfraniad at y gost lawn, gydag uchafswm cyfraniad wythnosol fel y pennir gan Lywodraeth Cymru.

Mae cyfraniad yr unigolyn bob amser yn cael ei gyfrif yn gyntaf tuag at gost ei gyllideb cymorth neu daliad uniongyrchol cyn unrhyw gymorth ariannol a ddarperir gan y Cyngor. I bob pwrpas, bydd y Cyngor yn ychwanegu at gyfraniad yr unigolyn gyda chyllid ychwanegol hyd at werth y gyllideb cymorth neu daliad uniongyrchol.

Ni fydd eich cyfraniad wythnosol yn amrywio yn ystod y flwyddyn os na fyddwch yn derbyn yr holl gymorth y cytunwyd arno yn eich cynllun gofal a chymorth, ond bydd yn cael ei adolygu'n flynyddol Mae hyn yn cynnwys ar gyfer absenoldebau fel bod yn yr ysbyty, ar seibiant neu ar wyliau am wythnos neu fwy.

Hawlio budd-daliadau i'ch helpu i dalu taliadau

Rydym yn deall bod gorfod talu am wasanaethau yn debygol o fod yn bryder mawr i ddefnyddwyr gwasanaethau, er bod y taliadau'n cael eu cadw mor isel â phosibl.

Wrth gyfrifo'r hyn y bydd rhaid i bobl dalu tuag at gost y gwasanaethau maent yn eu derbyn, ystyrir hefyd eu gallu i dalu.

Taliadau am wasanaethau ofal yn eich cartref ac yn y gymuned

Mae Llywodraeth Cymru a Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Cyngor Sir Ddinbych yn ymrwngwng i helpu unrhyw un sydd ag angen gwasanaethau i hawlio unrhyw fudd-daliadau nawdd cymdeithasol a phensiynau y mae ganddynt hawl iddynt. Mae hyn yn cynnwys budd-daliadau mae pobl wedi methu â'u cael yn y gorffennol. Am help neu wybodaeth ynghylch hawlio budd-daliadau, cysylltwch â Cyngor ar Bopeth. Mae eu manylion cyswllt wedi'u rhestru o dan 'cysylltiadau defnyddiol' yn adran olaf y ddogfen hon.

Sylwer y bydd unrhyw incwm ychwanegol a geir gan fudd-dal yn cael ei gyfrif at ddibenion yr asesiad ariannol o ddyddiad y llythyr dyfarniad a gewch gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn rhoi gwybod ichi am unrhyw ddyfarniad neu gynnydd mewn budd-daliadau. Oherwydd hyn, ni fyddwn yn ôl-ddyddio taliadau i ddyddiad y cais am fudd-daliadau.

Beth sy'n digwydd i'r wybodaeth ariannol a phersonol a roddir?

Bydd y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol yn ymdrin â'r holl wybodaeth yn gyfrinachol a chaiff eich manylion eu cadw'n saff a diogel. Mae dyletswydd ar y Cyngor i amddiffyn yr arian cyhoeddus y mae'n ei weinyddu, ac i'r perwyl hwn, gall ddefnyddio gwybodaeth rydych wedi'i darparu er mwyn atal a datgelu twyll.

Gall hefyd rannu'r wybodaeth hon gyda chyrrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus at y dibenion hyn. Am ragor o wybodaeth, gweler [y datganiad preifatwydd ar wefan Cyngor Sir Ddinbych](#)

Cysylltiadau defnyddiol

Am ragor o wybodaeth ar Wasanaethau Cymorth Cymunedol neu fanylion cyswllt Eiriolaeth, cysylltwch â:

Un Pwynt Mynediad (UPM) ffoniwch ar 0300 456 1000 neu e-bostiwch

unpwyntmynediad@sirddinbych.gov.uk

Taliadau am wasanaethau ofal yn eich cartref ac yn y gymuned

Am wybodaeth ar y broses hawlildio taliadau, neu i wneud sylwadau neu gŵyn am unrhyw agwedd ar eich gwasanaethau, cysylltwch â:

Tim Cysylltiadau Cwsmeriaid - Ffoniwch yn rhad ac am ddim ar 0800 032 1099 neu ysgrifennwch atom:

Cysylltiadau Cwsmeriaid
Gwasanaethau Cymorth Cymunedol,
Cyngor Sir Ddinbych,
Blwch Post 62,
Rhuthun LL15 9AZ

I wneud cwyn:

Cysylltwch ag aelod o staff y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol neu gwnewch gŵyn ar-lein [drwy'r wefan Cyngor Sir Ddinbych](#).

Am ragor o wybodaeth am y cyfrifiad asesiad ariannol a gwybodaeth ar daliadau, cysylltwch â'r:

Tim Cyllid, Incwm ac Asesu.

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol,
Cyngor Sir Ddinbych,
Blwch Post 62,
Rhuthun LL15 9AZ
Ffoniwch ni yn Y Rhyl ar 01824 706392 neu Rhuthun ar 01824 712403
E-bost: Tim.SAC@sirddinbych.gov.uk

Am wybodaeth a chyngor ynghylch hawlio budd-daliadau y gallwch fod â hawl iddynt, cysylltwch â'r:

Cyngor ar Bopeth, sy'n darparu gwasanaeth cyngor rhad ac am ddim, cyfrinachol, diduedd ac annibynnol ar ystod eang o bynciau, yn ogystal â chyngor arbenigol ar ddyled a budd-daliadau lles.

Oriau agor: Yn amrywio ar draws Sir Ddinbych, edrychwch ar y wefan am fanylion.

[Gwefan am Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych](#)

Taliadau am wasanaethau ofal yn eich cartref ac yn y gymuned

- Llinell gymorth, ffoniwch 03444 77 20 20
- Dinbych; ffoniwch rhadffon 0808 278 7933 neu e-bost denbigh@dcab.co.uk
- Rhyl; ffoniwch rhadffon 0808 278 7933 neu e-bost rhyl@dcab.co.uk
- Ruthin; ffoniwch rhadffon 0808 278 7933

Gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Conwy a Sir Ddinbych (CADMHAS)

Eiriolaeth Iechyd meddwl arbenigol, mynediad at wybodaeth ynghylch hawliau lles, tai, dyled a llawer o faterion eraill, dangos y ffordd i asiantaethau eraill, a chymorth i gyrchu'r gwasanaethau hyn. Cynrychiolaeth mewn cyfarfodydd cynllunio ac Eiriolaeth Annibynnol y Ddeddf Iechyd Meddwl (IMHA).

Sut i gysylltu â nhw: Dydd Llun i ddydd Gwener 9a.m. i 5p.m. Ffônïwch 01745 813999

[Gwefan am Gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Conwy a Sir Ddinbych \(CADMHAS\).](#)